# Addysg / Education
## Gwasanaeth Adnoddau / Resources Service
Uwch Reolwr / Senior Manager – Owen Owens

Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/BG**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
owenowens@gwynedd.llyw.cymru


9fed Ionawr 2019

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

**Trefn Casglu Arian Cinio**

Yn dilyn sylw diweddar yn y Wasg am sefyllfa dyledion arian cinio Gwynedd, bydd newid i'r drefn casglu arian cinio yn weithredol o wythnos yma ymlaen.

Gan fod system ar-lein mewn lle, gallwch weld beth yw balansau cinio eich plant yn ddyddiol drwy'r Schoolgateway.

Disgwylir i chi dalu o flaen llaw am ginio ysgol (gellir gwneud hyn 24/7 drwy'r Schoolgateway) neu fan bellaf fod y balans wedi ei glirio erbyn dydd Gwener yn wythnosol. Bydd unrhyw gredyd yn dilyn absenoldebau yn cario ymlaen i'r wythnos ganlynol.

Os na fydd arian cinio yn cael ei dalu yn rheolaidd, bydd gofyn i chi wneud trefniadau eraill ar gyfer cinio eich plentyn drwy drefnu bocs bwyd.

Bydd diffyg cydweithrediad yn gallu arwain i'r ddyled gael ei throsglwyddo i'r Sir, casglwyr dyledion a'r Llysoedd mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae teuluoedd sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cymorth a Chyflogaeth (sail incwm), Lwfans Ceisio Gwaith (ar sail incwm), Credyd Pensiwn (Gwarant), Cymorth o dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999, Credyd Treth Plentyn (gydag incwm trethadwy blynyddol ddim mwy na £16,190) yn gymwys i dderbyn cinio Ysgol am ddim. Os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau uchod a ddim yn derbyn cinio am ddim ar hyn o bryd rydych angen **cysylltu â'r swyddfa Budd-daliadau** drwy e-bostio:- budd-daliadau@gwynedd.llyw.cymru <mailto:budd-daliadau@gwynedd.llyw.cymru>

Gyda diolch am eich cydweithrediad parhaol.

Yn gywir

*Owen Owens*

**Owen Owens**
**Uwch Reolwr Addysg (Gwasanaeth Adnoddau)**




Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.llyw.cymru